

# BLOG BRO

## BLOG BRO Medi 2016

### **Barchus gyd-ddisgyblion 2016 a chroeso i Flog y Prif Swyddogion.**

Etholwyd ni'n chwech nol ym mis Gorffennaf gyda Carwyn Bebb yn Brif Fachgen a Sioned Beynon yn Brif Ferch. Cai Evans, Osian Mcavoy, Elen Fflur Davies a Greta Llyr yw'r dirprwy Brif Swyddogion. Mae criw o'r Chweched a Blwyddyn Saith newydd ddychwelyd o wersyll yr Urdd, Llangrannog lle cawson hwyl yn Yr Eisteddfod Ddwl, ar gefn y ceffylau gyda Luned Davies yn cwyno am y "Noc â'n Ryn!!" Cafwyd cyfle i'r staff ymlacio tra'n bod ni'n llwytho'r bws a gweithio'n hynod o galed!

Mae'r tymor hwn yn un cyffrous gyda bob math o bethau ffantastig yn digwydd, "Chwarae Cuddio" Sioe Gerdd yr ysgol wedi dechrau ymarfer, felly prynwch eich tocynnau'n barod ar gyfer mis Tachwedd.

Mae'r Tim Rygbi Cyntaf wedi ennill eu gem gyntaf eleni yn erbyn Ysgol Maes y Gwendraeth a'r tîm Hoci Cyntaf yn ennill yn erbyn Ysgol y Frenhines Elisabeth.

Cafwyd trip ardderchog yng nghwmni Dr H Griffiths a Mrs Richards allan ym Melg yn talu teyrnged i'r miloedd a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd 1af.

Fel arweinwyr newydd y 6ed rydyn ni fel tim yn gobeithio bod yn llais i ddisgyblion yr ysgol felly os oes gennych unrhyw broblem, neu jest eisiau sgwrs, dewch aton ni unrhywbryd, ond dim adeg gwersi wrth gwrs! Ein nod yw bod ar goridor yn ateb eich ymholiadau.

### **Felly dyma ni o'r chwith i'r dde yn y llun :**

Fi yw **Elen** ac rwy'n hoffi actio a gwrando ar hen gerddoriaeth.

Fi yw **Greta**, fi'n byw yn Llandeilo a fi'n hoff o gymdeithasu a gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg.

Fi yw **Sioned** a dwi'n hoff iawn o siarad.



Fi yw **Bebb, Carwyn Bebb** rwy'n mwynhau bwyd ond dim ond ei fwyta.

Fi yw **Cai** ac rwy'n hwyr i bobman.

Fi yw **Osian** ac rwy'n hoffi rygbi, siarad a chymdeithasu.

**Edrychwn ymlaen at weld chi ar hyd y lle.  
Welwn ni chi wap!**